

## Cofnod o Benderfyniad, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Seilwaith yr Economi

I'w ddefnyddio gyda phrosiectau sy'n berthnasol i Anecs II yn unig – o dan Ddeddf Priffyrdd 1980

<b>Enw'r Prosiect:</b> Gwendid a chryfhau pont Afon Ebwy	<b>Lleoliad (gan gynnwys cyfeirnod grid cenedlaethol):</b> Mae'r bont yn cario traffordd yr M4 dros Afon Ebwy, rhwng Cyffordd 27 a Chyffordd 28 (ST 28521 86612), i'r gorllewin o Gasnewydd.
<b>Nodwch leoliad y ffeil (iShare/ TEDMMS):</b>	

Meini prawf cymwys i brosiect sy'n berthnasol i Anecs II:

Elfen gwelliant y prosiect yw >1ha	v	Lleolir y prosiect mewn ardal 'sensitif'	Effeithiau eraill a all fod yn sylweddol ym marn Arbenigwr Cymwys (e.e. ger y safle sensitif)
------------------------------------	---	--	---

Noder: i lywio asesiad sgrinio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA), darllenwch y meini prawf yn Anecs II o [Gyfarwyddeb AEA \(2014/52/EU\)](#), [DMRB LA 102 Prosiectau sgrinio ar gyfer AEA](#), [Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol \(Diwygiadau Amrywiol syn gysylltiedig â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth\) 2017](#).

Meini Prawf Anecs III

<p><b>A. Disgrifiad o'r prosiect</b></p> <p>Bydd y cynllun yn cynnwys gweithredu Mesurau Ymyrryd Brys i Bont Afon Ebwy yr M4 i fynd i'r afael â chryfder strwythurol y colfach – gan ganolbwyntio ar ymyriadau a fydd yn sicrhau diogelwch defnyddwyr y bont. Gan nad yw'r gwaith arfaethedig yn hollol yn brosiect 'gwella' neu 'gynnal a chadw' o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, fel mesur rhagofalus, maent wedi sgrinio ar y sail ei fod yn waith 'gwella'.</p> <p>Isod ceir dilyniant adeiladu dangosol a ddatblygwyd ar y cyd â'r Contractwr dan gontract Ymwneud Cynnar gan Gontractwr (ECI) ac isgontractwyr arbenigol. Mae manylion terfynol y gwaith/rhyngwyneb a mynediad dros dro o fewn y cwrs dŵr i'w cadarnhau.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Clirio'r safle, creu mynediad i'r safle (adeiladu ffyrdd i gludo nwyddau) ac ardal neu ardaloedd caeedig, storfeydd, padiau ar gyfer craeniau ac ardaloedd cydosod. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei wneud y tu allan i'r cwrs dŵr/sianel;</li><li>• Datguddio a pharatoi sylfeini'r pileri – mae hyn yn cynnwys tynnu'r garreg floc sydd yn ei lle ar hyn o bryd ynghyd â'r bwnd segur i amddiffyn yn erbyn llifogydd o dan rychwant yr ochr ddeheuol. Efallai y bydd y gwaith hwn yn gofyn am waith peiriannol o fewn y cwrs/sianel ddŵr;</li><li>• Adeiladu pileri dalen yn y man gwreiddiol, cynnwys llinellau presennol y colofnau cylchol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud y tu allan i'r cwrs/sianel ddŵr;</li><li>• Gosod gweithfeydd/system tŵr cymorth dros dro lle bydd trawstiau'n cael eu gosod arnynt a'u llithro i'w lle. Efallai y bydd y gwaith hwn yn gofyn am waith peiriannol o fewn y cwrs/sianel ddŵr;</li><li>• Darparu trawstiau dur ffabrigedig ar y safle;</li><li>• Codi a gosod y trawstiau ar y gweithfeydd/system tŵr cymorth dros dro. Efallai y bydd angen gwneud y gwaith hwn dros y cwrs dŵr, ond nid y tu mewn iddo;</li><li>• Llithro'r trawstiau i'w lle. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud dros y cwrs dŵr, ond nid y tu mewn iddo;</li><li>• Codi'r gwaith dur a gosod y cynalyddion. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud dros y cwrs dŵr, ond nid y tu mewn iddo;</li><li>• Cael gwared ar bob rhan o'r gweithfeydd/system tŵr cymorth dros dro. Efallai y bydd y gwaith hwn yn gofyn am waith peiriannol o fewn y cwrs/sianel ddŵr;</li></ul>
--

- Ailgyflwyno amddiffyniad sgwrfa ger glannau'r afon;
- Clirio'r safle a throsglwyddo.

Mae potensial gan y Cynllun i greu gwastraff, ond fe'i dyluniwyd mewn ffordd i addasu cymaint ohono â phosibl at ddibenion gwahanol a'i gynnwys yn y gwaith parhaol; er enghraifft, prif elfennau'r gwaith arfaethedig yw elfennau dur strwythurol a fydd angen eu hailgylchu. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cynnwys cynigion ar gyfer delio â deunydd a gwastraff sy'n cael eu cynhyrchu gan y Cynllun.

Ar ôl cwblhau'r gwaith atgyfnerthu, caiff pob llawr caled ei waredu a'r llinell ffens ei hadfer. Bydd planhigion o fewn ardaloedd y mae'r datblygiad yn effeithio arnynt yn cael eu hadfer a'u bioamrywiaeth yn cael ei wella drwy greu glaswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau a phlannu coed a llwyni brodorol ychwanegol i ailsefydlu cysylltiadau rhwng cynefinoedd presennol ac i wella eu cadernid.

#### **B. Disgrifiad o'r amgylchedd lleol (llynell sylfaen), gan gynnwys dynodiadau statudol ac anstatudol:**

Yn bennaf, mae ardal y cynllun yn cynnwys pont Afon Ebwy, sydd wedi'i lleoli rhwng Cyffordd 27 a Chyffordd 28 yr M4, i'r gorllewin o Gasnewydd a'r ardal islaw ac sy'n ei ffinio ar hyd glannau dwyreiniol a gorllewinol yr afon. Cyfanswm arwynebedd y safle yw tua 2.25 hectar.

Mae Afon Ebwy yn llifo'n uniongyrchol o dan y bont, i gyfeiriad y de ac fe'i dynodir yn Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC). Mae cofnodion gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn dangos ei bod yn afon Pysgod Eogffurf bwysig. Mae'n draenio i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Wysg, sydd wedi'i lleoli tua 5.5km i lawr yr afon. Mae'r argloddiau ar hyd Afon Ebwy (o dan y cynllun) wedi'u dynodi'n dir lle y mae'r risg llifogydd yn uchel a chanolig o afonydd a'r ardal gwanhau llifogydd (cronfa ddŵr), i'r de-orllewin, yn risg ganolig ac isel.

Mae'r safle a'r ardal gyfagos yn cynnwys cynefinoedd a allai fod yn addas ar gyfer cefnogi rhywogaethau a warchodir gan gynnwys ystlumod, dyfrgwn, adar bridio, pathewod ac ymlusgiaid.

Lleolir ardaloedd trwchus o Glymog Japan (JKW) o fewn ardal y cynllun.

Mae'r derbynyddion preswyl agosaf tua 180m i'r gogledd-orllewin o ardal y cynllun.

**Dynodiadau statudol ac anstatudol:** Mae ACA Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena ac ACA Safleoedd Ystlumod Wysg wedi'u lleoli o fewn 30km i'r cynllun ac wedi'u dynodi ar gyfer rhywogaethau ystlumod. Gwastadeddau Gwent – Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Sant-y-brid a Gwarchodfa Natur Leol Allt-Yr-Ynn (LNR) wedi'u lleoli o fewn 2km i'r cynllun. Mae 13 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC), gan gynnwys SINC Afon Ebwy, o fewn 2km i leoliad y cynllun. Nid oes unrhyw Safleoedd Bioamrywiaeth Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) o fewn 2km i'r cynllun. Mae Ardaloedd Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn (NAPPA) Rhifau 324, 539, 543, 537, a 326 wedi'u lleoli o fewn 2km i'r cynllun. Mae 25 adeilad a strwythur rhestredig o fewn 2km i'r cynllun. Mae Parc a Gardd Hanesyddol Gradd II\* Parc Tredegar yn ffinio â phont Afon Ebwy i'r dwyrain. Gyda'r bont droed restredig Gradd II tua 75m i fyny'r afon o ardal y cynllun.

**C. Math a nodweddion yr effeithiau amgylcheddol posibl (gan gynnwys mesurau lliniaru/gwella):**

Mae angen clirio llystyfiant gan gynnwys coetiroedd a choed wrth ymyl pileri'r bont er mwyn darparu ar gyfer ardal y gwaith arfaethedig, y llwybrau mynediad iddo o'r M4, a manau caeedig y gwaith. Bydd yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn cael eu hadfer ar ddiwedd y cynllun.

Er bod ardal y cynllun yn cynnwys cynefinoedd sy'n addas ar gyfer cefnogi rhywogaethau a warchodir, ni ddaeth arolygon manylach o rywogaethau o hyd i dystiolaeth o'u presenoldeb. Fodd bynnag, canfuwyd nyth segur yn haf 2020 wrth glirio llystyfiant yn rhannol o gwadrant de-orllewinol y safle a gwelwyd bod dyfrgwn, gleision y dorlan ac ystlumod yn teithio ar hyd y rhan hon o'r afon. Canfu arolygon dyfrol fod llyswennod Ewrop, crethyll, gwraichod barfog a silod y dom yno. Nid oes disgwyl canfod eogiaid yn y rhan hon o'r afon tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac mae ymrwymiad i ymgynghori â CNC os yw'r gwaith yn ymyrryd â thymor yr eog. Bydd effeithiau'r cynnig ar y gwaith ar bathewod a'u cynefin yn cael eu rheoli drwy'r amodau a osodir gan Drwydded Rhywogaethau a Warchodir Ewrop.

Er nad oes bwriad cael gwared ar y JKW, cytunwyd gyda CNC ar ddull i ddelio â'r JKW i'w atal rhag lledaenu o ganlyniad i weithgareddau adeiladu.

Mae Afon Ebwy yn gynefin cefnogol sy'n gysylltiedig â swyddogaeth ACA Afon Wysg gan y gallai gweithgareddau adeiladu o'r fath ar y safle, os nad ydynt yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n briodol, effeithio ar rywogaethau mudol sy'n defnyddio Afon Ebwy fel sianel gysylltu â'r SAC e.e. eog, dyfrgwn etc. Cynhaliwyd HRA/AA i asesu unrhyw effeithiau posibl ar y gwaith ar SAC Afon Wysg. Cynhelir Asesiad Risg Llifogydd (FRA), Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ac asesiad Geomorffolegol ar hyn o bryd er mwyn pennu'r effeithiau sylweddol posibl ar yr amgylchedd dŵr. Fodd bynnag, wrth fabwysiadu Dull Rhagofalus o Weithio, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar y rhywogaethau gwarchodedig hyn a'r SAC.

Mae gweithgareddau adeiladu yn debygol o gynyddu llygredd, gan gynnwys sŵn ac allyriadau, yn yr aer megis llwch, gwaddodion a llygrwyr (tanwydd) a all effeithio ar dderbynyddion sensitif, megis afon Ebwy, SAC Afon Wysg a thrigolion lleol os na chânt eu rheoli'n gywir. Bydd y ffynonellau llygredd posibl yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dulliau arfer gorau safonol sydd wedi'u cynnwys yn y CEMP. Mae Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP) hefyd wedi'i chyflwyno.

Rhagwelir mân effeithiau andwyol ar leoliad pont droed restredig Gradd II oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch, sŵn ac aflonyddwch wrth adeiladu a cholli llystyfiant. Fodd bynnag, mae topograffeg leol ardal y cynllun, defnydd tir amgylchynol a'i leoliad ymylol yn awgrymu y bydd y gwaith arfaethedig yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar leoliad Parc a Gardd Hanesyddol Parc Tredegar.

Mae'r prif effeithiau amgylcheddol yn ymwneud yn bennaf â chyfnod adeiladu'r cynllun. Bydd y mesurau arfer gorau a gynhwysir yn y CEMP a mabwysiadu Dull Rhagofalus o Weithio yn rheoli ac yn lliniaru'r effeithiau hyn.

**D. Manylion graddau gwaith asesu'r effaith amgylcheddol (gan gynnwys cyfyngiadau) a wnaed a chrynodeb o unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r cyrff ymgynghori statudol (gan gynnwys Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol):**

Mae Adroddiad Sgrinio Amgylcheddol SWTRA wedi'i ysgrifennu ar gyfer y gwaith gwella hwn lle cynhaliwyd gwaith sgrinio mewn perthynas â'r AEA. Ymgynghorwyd â Chyngor Dinas Casnewydd gan fod y gwaith o fewn SINC. Mae wedi cadarnhau nad oes angen caniatâd ar ôl derbyn y bydd Dull Rhagofalus o Weithio yn cael ei fabwysiadu. Ymgynghorwyd â CNC ynghylch y fethodoleg ar gyfer trin JKW a'r asesiad geomorffolegol a'r gofynion FRAP.

**E. Y penderfyniad, datganiad achos i gefnogi'r penderfyniad hwn ynghylch a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio:**

Mae'r cynllun yn cwmpasu ardal sy'n fwy na throthwy maint Anecs II o 1 hectar ac felly mae'n "brosiect perthnasol" o dan Anecs II o'r gyfarwydddeb AEA. Er ein bod yn dal i aros am ganlyniadau'r asesiad geomorffoleg, mae canlyniadau'r holl arolygon a'r asesiadau eraill a gynhelir yn awgrymu na fydd y cynllun yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac felly ni fydd angen AEA statudol.

Cyfeiriadau ffeil dogfennau ategol i gyfeirio atynt yn y dyfodol:

Ar ôl trafodaethau gydag Ymgynghorydd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru/yr Asiant Cefnffyrdd, rwyf wedi penderfynu ~~bod angen~~ / **nad oes** angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y prosiect hwn.

Llofnod Cyfarwyddwr y Prosiect



Dyddiedig: 02 Medi 2021

Awdurdodiad i gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad:

Llofnod Enwebai Gweinidogion Cymru:



Dyddiedig: 07 Medi 2021

Richard Morgan  
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau